**CYNGOR CYMUNED LLANGERNYW**
***LLANGERNYW COMMUNITY COUNCIL***

Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol y Cyngor Cymuned Nos Fercher, Mai 21ain 2014 am 7.30 yh yng Nghanolfan Pandy Tudur

Ymddiheuriadau: Elen Edwards

Presennol: Gwyn Williams (Cadeirydd), Diane Roberts, Tecwyn Evans, Ann Vaughan, Gwynfor Davies, Emlyn Williams, Ifor Edwards a'r Clerc.

Daeth un aelod o'r cyhoedd i'r cyfarfod.

26.1 SGWRS GAN ERIN GWYN ROSSINGTON – croesawyd Erin Rossington i'r cyfarfod gan y Cadeirydd. Roedd Erin wedi derbyn grant gan y Cyngor tuag at ei thaith addysgiadol i Batagonia gyda'r Urdd yn yr Hydref. Wedi cyrraedd Trefelin a threulio amser yno buont yn teithio ar draws y paith i Drelew a'r Gaiman – taith o 8 awr ar y bws. Roedd yn sych iawn yno a buont yn cymryd rhan yn Eisteddfod Chubut 2013. Mwynhaodd y profiad a'r croeso yn fawr ac yn arbennig cael cymryd rhan a bod yn llwyddiannus yn yr Eisteddfod. Mwynhaodd y pryd bwyd 'asaddo' hefyd. Diolchwyd i Erin am ei sgwrs ddiddorol.

26.2 DATGAN CYSYLLTIAD – rhoddwyd cyfle i'r aelodau ddatgan cysylltiad ag eitem ar yr Agenda.

26.3 COFNODION – cafwyd golwg ar gofnodion cyfarfod 30 Ebrill a chynigiodd Emlyn Williams ac eiliodd Diane Roberts a'u derbyn fel cofnod cywir.

26.4 DATGANIAD ARIANNOL A DATGANIAD LLYWODRAETHU Y CYNGOR CYMUNED – derbyniwyd y datganiadau wedi i Mrs Gwenda Cooper archwilio'r llyfrau. Arwyddwyd y datganiad gan y Cadeirydd.

26.5 ADRODDIAD Y CADEIRYDD
Diolchodd Gwyn Williams i'r aelodau am fynychu'r cyfarfodydd ar hyd y flwyddyn ac am wneud cymaint o waith gwirfoddol ar ran yr ardal. Diolchodd i'r Clerc am ei gwaith. Cyfeiriodd at ddigwyddiadau ar hyd y flwyddyn a aeth heibio – Taith y Pererinion, y gobaith o ailagor toiledau Llangernyw, y posibilrwydd o golli un sedd yn ward Pandy Tudur. Mynychodd Gynhadledd Un Llais Cymru yn Llanelwedd ond roedd yn siomedig cyn lleied oedd y gynrychiolaeth o Ogledd Cymru yno. Aeth i gyfarfod safle Pwyllgor Cynllunio yn Llys Dymper a'r cyfarfod cynllunio i drafod y cais yng Nghonwy. Bu i gyfarfodydd Fforwm Cynghorau Cymuned a Thref Conwy a gweld mai ychydig o gefn gwlad sy'n mynychu. Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu cefnogaeth yn ystod y flwyddyn.

26.6 ETHOL CADEIRYDD – etholwyd Elen Haf Edwards yn Gadeirydd y Cyngor ond roedd wedi ymddiheuro na allai fod yn bresennol. Arhosodd Gwyn Williams yn y gadair am weddill y cyfarfod.

26.7 IS-GADEIRYDD – etholwyd Gwynfor Davies yn Is-Gadeirydd.

26.8 IS-BWYLLGORAU'R CYNGOR CYMUNED – PENDERFYNWYD i aelodau'r Is-bwyllgorau aros yr un fath eto eleni.

26.9 CYNRYCHIOLWYR AR BWYLLGORAU'R GYMUNED – PENDERFYNWYD i'r aelodau aros ymlaen ar y pwyllgorau: Amgueddfa – Elen H Edwards (Cadeirydd); Canolfan Bro Cernyw – Ian Griffith a Gerwyn Davies, Pwyllgor Ardal Un Llais – Diane Roberts, Tecwyn Evans.

26.10 MATERION FFYRDD AC AMGYLCHEDD
Roedd rhwystrau ar lwybr Tyn y Caeau ac angen edrych ar lwybr Hafodunos. PENDERFYNWYD gofyn i Kevin Roberts os allai edrych ar lwybr Pont Faen a bod y gamfa wedi diflannu. Cynigwyd gofyn i griw cerdded Llangernyw os oedd ganddynt ddiddordeb mewn cerdded y daith hir. Teimlid y byddai modd ail lansio'r taflen gerdded yn y cyfarfod yn Amgueddfa'r Cwm ar 5ed Gorffennaf ond bod angen gofalu bod y llwybrau ar agor.

26.11 CYFLOG CLERC – rhannodd Diane Roberts wybodaeth i'r aelodau a bydd trafodaeth y tro nesaf.

26.12 CAIS ARIANNOL – derbyniwyd cais gan Ysgol Bro Cernyw am gyfraniad tuag at gostau mynd i Eisteddfod yr Urdd Y Bala. PENDERFYNWYD i gyfrannu £300 o Gronfa Bro Cernyw.

26.13 NEWID ENW I CVSC – cafwyd ateb i'n cwyn bod yr enw Cymraeg wedi diflannu o'r logo yn dweud iddynt wneud gwaith ymchwil a chynnal trafodaeth a gweld nad oeddynt yn cael eu hadnabod wrth yr acronym CGGC a bod hwnnw yn gysylltiedig â Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru. PENDERFYNWYD i ateb y llythyr gan ddweud ein bod yn siomedig ac i ofyn ble gwnaethpwyd yr ymchwil a gyda pha aelodau.

26.14 SEMINAR HYFFORDDIANT SLCC AC UN LLAIS – mynychodd y Clerc y seminar yn Venue Cymru, Llandudno ar Fai 15fed. Cafwyd cyflwyniadau gan Brif Weithredwr Cyngor Wrecsam, Cwmni Yswiriant i Gynghorau, Huw Vaughan Thomas (Archwilydd Cymru) a gweithdai llai yn y prynhawn.

26.15 CWRS UN LLAIS AC I.C.O. – mynegodd Diane Roberts ddiddordeb mynychu'r cwrs ar 25ain Medi yn Yr Wyddgrug. Angen gofyn i Un Llais pam na fedrent drefnu cwrs oedd yn fwy canolog ei leoliad e.e. Glasdir, Llanrwst.

26.16 GWASANAETHAU YMGYNGHORIAETH UN LLAIS – derbyniwyd dogfen yn nodi bod gwasanaethau ymgynghorol ar gael.

26.17 MATERION ERAILL
26.17.1 Angen edrych ar dap Mynwent Llangernyw eto.
26.17.2 Llongyfarchwyd Rhian Williams Siwgr a Sbeis ar eu llwyddiant yn ennill Gwobr Busnes Conwy.
26.17.2 Orglawdd wedi ei chwalu a tir wedi ei ffensio yn nes at y brifforddd – angen cysylltu a'r Adran Priffyrdd a Chynllunio. Roedd lluniau ar gael fel tystiolaeth.
26.17.3 Roedd Henaduriaeth Conwy a Dyfrdwy wedi rhoi sêl bendith i Fynwent Capel Gwytherin ddod i ofal y Cyngor Cymuned.
26.17.4 Penderfynwyd i anfon llythyr at berchennog Eglwys Gwytherin yn gofyn i'r torrwr gwair sy'n croesi am y Glebe fynd ar hyd y clawdd ac nid dros feddi.

26.17.5  Gwair wedi  gordyfu wrth yr afon ym Mharc Chwarae Gwytherin ac yn beryglus iawn  i blant.
26.17.6  Roedd Dei Evans am godi £40 y tro am hel y gwair yn dilyn torri'r mynwentydd. PENDERFYNWYD i'w adael am eleni.
26.17 7 Twll yn y ffordd ger Tŷ Newydd, Petryal.

26.18  BILIAU
Society of  Local Council Clerks £70.80
(Seminar hyfforddiant)

Daeth y cyfarfod i ben am 9.45 yr hwyr.

*Cymeradwywyd y Cofnodion ....Elen H Edwards............................... Dyddiad ...25/6/14...........*

Community Council's Annual General Meeting was held Wednesday, May 21st 2014 at 7.30 pm at Pandy Tudur

Apologies: Elen Edwards

Present: Gwyn Williams (Chair), Diane Roberts, Tecwyn Evans, Ann Vaughan, Gwynfor Davies, Emlyn Williams, Ifor Edwards and the Clerk.

One member of the public was present.

26.1 TALK BY Erin Gwyn Rossington - Erin welcomed to the meeting by the Chairman. Erin received a grant from the Council towards her educational trip to Patagonia with the Urdd in October. Arrived Trefelin and after spending time there they traveled across the prairie to Trelew and Gaiman - a journey of 8 hours on the bus. It was very dry there and Erin took part in Chubut Eisteddfod 2013. She enjoyed the welcome and the experience very much and especially participating and being successful in the Eisteddfod. He enjoyed the meal 'asaddo' too. Erin was thanked for his interesting talk.

26.2 DECLARATION - gave members the opportunity to declare a connection with an item on the Agenda.

26.3 minutes - of April 30 were accepted as a true record.

26.4 FINANCIAL STATEMENT AND STATEMENT OF GOVERNMENT - statements were received following Mrs Gwenda Cooper examined the books. The statement was signed by the Chairman.

26.5 CHAIRMAN'S REPORT
Gwyn Williams thanked the members for attending meetings throughout the year and do so much volunteer work on behalf of the area. He thanked the Clerk for her work. He referred to incidents during the past year - the Pilgrim's Trail, the hope of reopening the Llangernyw toilets, the possibility of losing one seat in Pandy Tudur ward. Attended One Voice Wales Conference in Builth Wells but was disappointed how low the representation from North Wales there. He went to a site meeting and Llys Dymper Planning Committee meeting to discuss the planning application in Conwy. He attended meetings of the Conwy Town and Community Councils Forum and seen low attendance from rural areas. The Chairman thanked everyone for their support during the year.

26.6 ELECTION OF CHAIRMAN - Elen Haf Edwards was elected as Chairman of the Council but apologized that she could not be present. Gwyn Williams stayed in the chair for the remainder of the meeting.

26.7 VICE CHAIR - Gwynfor Davies was elected as Vice-Chairman.

26.8 SUB-COMMITTEES COMMUNITY COUNCIL - RESOLVED that members of the Sub-committees remain the same again this year.

26.9 REPRESENTATIVES ON COMMITTEES IN THE COMMUNITY - RESOLVED members staying on the committee: Museum - Elen H Edwards (Chair); Canolfan Bro Cernyw - Ian Griffith and Gerwyn Davies, One Voice Area Committee - Diane Roberts, Tecwyn Evans.

26.10 ROADS AND ENVIRONMENTAL ISSUES
There were obstacles on the path at Tyn y Caeau and need to look at Hafodunos path. RESOLVED Kevin Roberts asked if he could look at Pont Faen path and stile has disappeared. It was proposed to ask Llangernyw walking group if they were interested in walking the long walk. It was felt that the walking leaflet could be relaunched in the meeeting in the Museum on 5th July, but need to ensure the paths are open.

26.11 CLERK SALARY - Diane Roberts shared information to members and will be discussed next time.

26.12 GRANT APPLICATION – Ysgol Bro Cernyw has applied for a contribution towards the cost of going to the Eisteddfod in Bala. RESOLVED to donate £ 300 from Bro Cernyw Fund.

26.13 CHANGE NAME TO CVSC - the answer to our complaint that the Welsh name has disappeared from the logo tells they did a research and discussion and see that they are not known by the acronym CGGC as that this is linked to Wales

Council Voluntary Action. RESOLVED to answer the letter by saying that we are disappointed and ask where the research was made and with which members.

26.14 SLCC AND ONE VOICE WALES TRAINING SEMINAR - The Clerk attended the seminar at Venue Cymru on May 15th. Presentations were made by the Chief Executive of Wrexham Council, Councils Insurance Company, Huw Vaughan Thomas (Wales Auditor) and smaller workshops in the afternoon.

26.15 ONE VOICE AND I.C.O. COURSE - Diane Roberts expressed interest in attending the course on 25th September, Mold. Need to ask One Voice why they could not arrange a course that was more central to its members eg Glasdir, Llanrwst.

26.16 CONSULTANCY SERVICES ONE VOICE - received a document stating that the advisory services available.

26.17 OTHER MATTERS
26.17.1 Need to look at Llangernyw Cemetery tap again.
26.17.2 Siwgr & Sbeis Rhian Williams congratulated on their success in winning the Conwy Business Award.
26.17.2 Embankment is broken down and the land has been fenced closer to the highway - need to contact the Department of Highways and Planning. Photographs are available as evidence.
26.17.3 Conwy and Dee Presbytery have welcomed the change for Gwytherin Chapel Cemetery to come into the care of the Community Council.
26.17.4 decided to send a letter to the owner of Gwytherin Church to make sure that the grass cutter crossing to the Glebe go along the wall and not over graves.
26.17.5 Grass overgrown by the river at Gwytherin playground and very dangerous for children.
26.17.6 Dei Evans to charge £ 40 a time for gathering the hay after cutting cemeteries. RESOLVED to leave for this year.
26.17 7 Pothole in the road near Ty Newydd, Petryal.

26.18 BILLS
Society of Local Council Clerks £ 70.80
(Training Seminar)

The meeting ended at 9.45 pm.

Minutes were approved ...Elen H Edwards.................................... Date 25/6/14..